**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

9 Mehefin 2025

Annwyl Sarah,

Heb lais: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad, *Heb lais: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol*, ym mis Rhagfyr 2023. Gwnaeth yr adroddiad 26 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, a chafodd 24 ohonynt eu derbyn naill ai'n llawn neu'n rhannol.

Yn gynharach eleni, cafodd y Pwyllgor lythyr ar y cyd gan Gofal Canser Tenovus ac Ymgyrch Claire, yn ein hannog i gynnal ymchwiliad byr i graffu ar weithrediad adroddiad y Pwyllgor, oherwydd pryderon nad yw ei argymhellion yn cael eu datblygu. Ystyriodd y Pwyllgor y cais hwn yn ei gyfarfod ar 5 Mehefin 2025, a chytunodd y dylwn ysgrifennu atoch yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y maes hwn.

I'r perwyl hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r cwestiynau a nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm. Pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 11 Gorffennaf 2025, byddai hyn yn caniatáu inni rannu eich ymateb gyda rhanddeiliaid perthnasol i gael sylwadau dros doriad yr haf.

Hoffwn hefyd eich gwahodd i ddod i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref i drafod y cynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion. Rwyf wedi gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddfa i drefnu hyn.

Yn gywir

Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad

1. Pam y cafodd canser gynaecolegol ei eithrio o'r Cynllun Iechyd Menywod, er bod argymhelliad wedi ei wneud i'w gynnwys? A allwch chi egluro pam y dewisodd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru beidio â'i flaenoriaethu.

2. Pa gamau penodol sydd wedi eu cymryd i weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â chanser gynaecolegol ers cyhoeddi'r adroddiad? A allwch chi nodi ble mae cynnydd mesuradwy a gweladwy wedi'i wneud, yn ogystal â ble mae cynnydd wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd neu'n absennol.

3. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod argymhellion sy'n ymwneud â chanser gynaecolegol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn dryloyw? A allwch chi roi manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn olrhain ei chynnydd a ble mae hyn yn cael ei gyhoeddi.

4. Beth yw'r rhesymau dros yr amseroedd aros gwael parhaus ar gyfer canser gynaecolegol, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn? Pam nad yw'r sefyllfa wedi gwella, er iddi gael ei nodi fel blaenoriaeth.

5. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori adborth gan gleifion canser, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a sefydliadau cymunedol perthnasol wrth weithredu'r argymhellion hyn? A allech nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan ofal canser, ac yn eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau.

6. A allwch chi roi rhagor o fanylion ynghylch pam y gwrthodwyd Argymhelliad 15 (ynghylch gwella gofal brys ar gyfer canserau gynaecolegol), a beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y materion a godwyd yn cael eu datrys?

7. Pa rwystrau sydd wedi eu nodi sy'n atal y gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad yn llawn, a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu goresgyn y rhwystrau hyn?